

Adroddiad Blynddol Panel Dyfarnu Cymru 2004-2005

Gorffennaf 2005
Annwyl Gyfaill

Adroddiad Blynddol Panel Dyfarnu Cymru 2004-2005

Rwy'n ysgrifennu i roi'r diweddaraf i chi am weithgareddau'r Panel Dyfarnu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ystod y 12 mis ers i mi gyhoeddi adroddiad y llynedd, a oedd yn disgrifio gwaith y Panel am y 18 mis cyntaf, ni fu'n rhaid i ni ystyried unrhyw atgyfeiriadau oddi wrth y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, nac unrhyw apelau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Sefydlog. Ond yn ddiweddar mae'r Comisiwn wedi atgyfeirio dau achos i'r Panel, a byddaf yn adrodd arnynt yn y man.

Nid yw'n ofynnol yn statudol i mi gynhyrchu adroddiad blynyddol ffurfiol. Felly, rwyf wedi penderfynu y byddai adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n well drwy roi'r newyddion diweddaraf i chi yn y llythyr hwn.

Yn adroddiad y llynedd, nodais fod nifer fach o'r achosion y deliodd y Panel â hwy yn adlewyrchu, yn rhannol, gyflwyno'r fframwaith moesegol newydd. Roeddwn yn optimistig fod hyn hefyd yn dangos bod aelodau llywodraeth leol yng Nghymru yn cydnabod pwysigrwydd, ac yn anelu at, safonau uchel o briodoldeb mewn swyddi cyhoeddus. Mae'r safbwynt hwn yn cael ei ategu gan absenoldeb unrhyw atgyfeiriadau neu apelau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ar ôl ein hyfforddiant cychwynnol, torrwyd yn ôl ar weithgareddau'r Panel y llynedd. Fodd bynnag, mae'r Panel a'i aelodau'n parhau i fod yn barod i ddelio ag unrhyw achosion sy'n cael eu hatgyfeirio atom. Rydym wedi parhau â'n hyfforddiant ac yn ymwybodol o'r datblygiadau a'r newidiadau sy'n gysylltiedig â safonau mewn swyddi cyhoeddus. Rhan o'r hyfforddiant hwn oedd seminar lwyddiannus iawn ar y cyd ag aelodau o Banel Dyfarnu Lloegr a Chomisiwn Safonau yr Alban. Roedd hyn yn ein galluogi i rannu profiadau fframwaith moesegol pob gwlad. Hoffwn ddiolch i David Laverick, Llywydd Panel Dyfarnu Lloegr, am drefnu'r digwyddiad hwn.

Mae awdurdodau'r heddlu yng Nghymru yn atebol i'r cod ymddygiad enghreifftiol a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae'r gwaith ymchwilio a phenderfynu wedi hynny ar yr honiadau o gamymddwyn yng Nghymru yn gyfrifoldeb y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a Phanel Dyfarnu Cymru. Ym mis Medi y llynedd, roedd y Panel yn ffodus i gael cyflwyniad gan gynrychiolydd o Fwrdd Safonau Lloegr ar ddarpariaethau cod ymddygiad awdurdodau'r heddlu a rhai o'r materion ymarferol sy'n deillio o gymhwyso'r cod hwn.

Ym mis Chwefror eleni, roeddwn yn ddiolchgar iawn am y cyfle i annerch cynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan yn Aberystwyth ac i ateb cwestiynau ar waith y Panel Dyfarnu. Cefais fy nghalonogi gan y nifer a oedd yn bresennol yn y gynhadledd a'r brwdfrydedd a ddangoswyd tuag at roi'r fframwaith moesegol ar waith yng Nghymru.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Adam Peat am gyfarfod â mi ar adeg sy'n brysur iddo ef wrth iddo symud tuag at sefydlu'n ffurfiol Ombwdsmon newydd i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r flwyddyn sydd o'n blaenau yn addo bod yn un ddiddorol iawn. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ei ddegfed adroddiad ar weithredu safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus, ac y mae Llywodraeth y DU yn ei ystyried ar hyn o bryd. Mae ymgynghori ar weithredu'r codau ymddygiad yng Nghymru a Lloegr wedi dechrau. Archwiliwyd y goblygiadau i Gymru o ddiwygio'r Tribiwnlysoedd yn Lloegr yng nghynhadledd Cyngor y Tribiwnlysoedd yng Nghaerdydd ar 23 Mehefin. Edrychaf ymlaen at ganlyniad y datblygiadau hyn â diddordeb.

Gobeithio y byddwch yn cael y newyddion diweddaraf hyn yn ddiddorol. Mae rhagor o wybodaeth am y Panel Dyfarnu ar gael o'n gwefan: www.adjudicationpanelwales.org.uk, neu o Uned Gymorth Panel Dyfarnu Cymru yn y cyfeiriad isod.

J Peter Davies

LLYWYDD Y PANEL